Ymgynghoriad Penderfyniadau Anodd 2019-20

‘DYWEDOCH CHI. GWNAETHOM NI’

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

www.wrecsam.gov.uk | www.wrexham.gov.uk

Ymgynghoriad ‘Penderfyniadau Anodd’ – ‘Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni’

Ym mis Hydref a Thachwedd 2018, gofynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i’r cyhoedd yn Wrecsam gymryd rhan yn ymgynghoriad ‘Penderfyniadau Anodd’, er mwyn ein helpu i wneud y penderfyniadau sy’n rhaid i ni eu gwneud i arbed £9 miliwn yn 2019/20.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys arolwg a digwyddiad stondin farchnad. Bu i nifer o unigolion a grwpiau hefyd ymateb drwy anfon llythyrau/negeseuon e-bost. Bu i 3,350 o bobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad , a hoffwn ddiolch i’r bobl a’r grwpiau hynny a gymerodd ran.

Rhan bwysig iawn o unrhyw ymgynghoriad yw rhoi adborth i’r cyfranogwyr am yr hyn sydd wedi digwydd ers iddynt roi eu barn, a pha effaith mae eu barn wedi ei chael. Mae’r broses hon o roi adborth yn ymwneud â gallu dangos lle mae’ch safbwyntiau wedi effeithio’n uniongyrchol ar gynnig, a hefyd egluro bod adegau lle na allwn wneud popeth a awgrymodd y cyhoedd (ac egluro pam).

Felly, rydym yn cyflwyno’r adroddiad ‘Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni’ i ddangos i chi beth yw’r penderfyniadau terfynol sydd wedi eu gwneud ar bob un o’r cynigion a gyflwynwyd i ymgynghori arnynt.

Os hoffech chi ddarllen yr holl fanylion am y cynigion a wnaed gan y Cyngor, a chanlyniadau’r ymgynghoriad, gallwch ddod o hyd i adroddiad llawn yn yma.

[1]* Mae hyn yn darparu Lefel Hyder o fwy na 95% a Chyfwng Hyder dan 5% (yn seiliedig ar y 3,325 a ymatebodd i’r arolwg)

Lefel hyder *yw mynegiant o ba mor hyderus y gall ymchwilydd fod o ran y data a dderbyniwyd gan sampl. Mae lefelau hyder yn cael eu mynegi fel canran ac yn dangos pa mor aml y byddai canran o’r boblogaeth yn rhoi ateb fyddai o fewn y cyfwng hyder.*

Cyfwng hyder *yw’r ffin o wallau y byddai’r ymchwilydd yn ei brofi pe gallai ef neu hi ofyn cwestiwn ymchwil penodol, er enghraifft i bob aelod o’r boblogaeth darged, a derbyn yr un ymateb a nodwyd gan aelodau’r sampl a nodwyd yn yr arolwg.*

Cynhyrchu Incwm

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW) bolisi adennill costau, sy'n amlinellu egwyddorion ar gyfer codi tâl am wasanaethau a ddarperir ganddo. Mae'n sefydlu fframwaith ar gyfer adolygu a chytuno ar y ffioedd a godir gan y Cyngor, yn ogystal â nodi'r egwyddorion y bydd y Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddynt. Mae'r polisi yn cynnwys canllawiau i sicrhau bod ffioedd yn cael eu gosod yn briodol er mwyn i ni adennill ein costau, yn ogystal â darparu gwerth i'r cyhoedd am bris sy'n rhesymol ar gyfer y gwasanaeth.

Bu i ni ofyn a oes gennych chi unrhyw awgrym arall am ffyrdd y gall CBSC gynhyrchu incwm.

Dywedoch Chi:

- Lleihau cyflogau Cynghorwyr / Peidio â chodi cyflogau / Gwneud y swydd yn un gwirfoddol
- Dileu rôl y Maer
- Codi tâl ar staff a Chynghorwyr am barcio
- Lleihau nifer y Cynghorwyr
- Lleihau rhenti a threthi busnes ar gyfer busnesau yn Wrecsam
- Sylwadau negyddol am y palmant newydd ar Stryt Gobaith
- Lleihau cyflogau staff y Cyngor
- Gwella dulliau gorfodi sbwriel, baw cŵn, parcio ac ati
- Codi Treth y Cyngor
- Syniadau eraill ar gyfer cynhyrchi incwm
- Cynnal mwy o ddigwyddiadau/codi tâl ar bobl am fynd i ddigwyddiadau

Gwnaethom Ni:

Mae cyflogau Cynghorwyr yn cael eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau dull cenedlaethol cyson ar gyfer taliadau aelodau. Ni chaniateir i gynghorau unigol osod lwfansau y tu allan i gyfraddau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Nid yw'n bosibl dan y gyfraith i ddileu rôl y maer, fodd bynnag mae'r Cyngor wedi bod yn lleihau'r gwariant cyffredinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae'n parhau i gipio cyfleoedd i gyflawni arbedion wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Mae'r Cyngor wedi adolygu meysydd parcio staff ac aelodau, ac yn cynnig cyflwyno ffioedd fesul cam. Bydd y cam cyntaf yn dechrau fis Mai eleni.

Nid yw'r Cyngor yn gallu penderfynu ar nifer y cynghorwyr sy'n cael eu hethol ar gyfer y fwrdeistref sirol. Caiff hyn ei benderfynu gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru, sy'n cynnal adolygiadau rheolaidd o holl etholaethau seneddol yng Nghymru (cynhaliwyd eu hadolygiad diwethaf ddiwedd 2018).

Caiff trethi busnes eu gosod gan Lywodraeth Cymru a chaiff rhenti eu gosod yn ôl disgresiwn landlordiaid a pherchnogion eiddo unigol. Nid oes gan y Cyngor bwerau i wneud y newidiadau a awgrymir.

Gosodwyd y palmant newydd ar Stryt Gobaith i wella'r amgylchedd ac fel rhan o gynllun i wella canol y dref.

Mae staff Llywodraeth Leol (h.y. gweithwyr y Cyngor) yn destun cyflog ac amodau cenedlaethol, ac felly nid yw'r Cyngor yn gallu gwneud newidiadau yn y maes hwn.

Mae'r contract blaenorol ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi wedi dod i ben, ac mae'r Cynghorwyr ar hyn o bryd yn ystyried y dewisiadau ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, bydd Treth y Cyngor yn codi. Gwelwch yr adran Treth y Cyngor ar wahân am fwy o wybodaeth.

Bu i ni gynnal mwy o ddigwyddiadau yn 2018/19 nag unrhyw flwyddyn arall (e.e. Pentref Nadolig) ac rydym ni wedi ymrwymo i gynnal mwy o ddigwyddiadau yn y dyfodol os yw'r gyllideb yn caniatáu hynny.

Gwasanaethau Gwastraff

Rydym ni'n cynnig gwneud rhai newidiadau i'r gwasanaethau gwastraff.

Fel y gwyddoch o ymgynghoriadau eraill ynghylch y gyllideb, ers sawl blwyddyn bellach rydym ni wedi bod yn adolygu'r ffordd rydym ni'n delio â gwastraff yn Wrecsam. Ac mae Awdurdodau Lleol eraill Cymru wedi bod yn gwneud yr un fath. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn edrych ar y mater hwn, gan fod arnynt eisiau sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cefnogi mentrau a thargedau cenedlaethol. Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru dylai awdurdodau lleol edrych ar casgliadau gwastraff cartref misol (h.y. eich bin glas neu ddu), er mwyn cynyddu cyfraddau ailgylchu, diogelu'r amgylchedd a lleihau costau. Hyd yma, yng Nghymru, nid ydym ni wedi gweld unrhyw ardal yng Nghymru yn cyrraedd y safon hwn. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd (fel Gwynedd) wedi newid i gynnal y casgliad hwn bob tair wythnos (rydym ni'n cynnal y casgliad hwn bob pythefnos yn Wrecsam).

Un dewis yw cyflwyno casgliadau bob tair wythnos ar gyfer eich biniau du/glas. Byddwn yn parhau i wagio cynhwysyddion ailgylchu bob wythnos, gyda'r gobaith y bydd swm y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu yn cynyddu o ganlyniad i'r newid hwn i 'wastraff gweddilliol.' Byddai hynny yn golygu ein bod ni'n gweithredu'n unol â Glasbrint Gwasanaethau Casglu Llywodraeth Cymru, ac Awdurdodau Lleol eraill sydd wedi neu'n bwriadu symud at y system hon. Rydym ni'n amcangyfrif y byddai hyn yn arwain at arbedion enfawr, ac yn cael effaith fawr ar ailgylchu yn Wrecsam.

Yr ail ddewis yw newid y ffordd rydym ni'n trin gwastraff gwyrdd/gwastraff gardd. Yn seiliedig ar rai o'ch awgrymiadau chi yn ystod ymgynghoriad cyllideb y llynedd, a'r data sydd gennym ni am swm y gwastraff gardd rydym ni'n ei gasglu, eleni rydym ni'n mynd i gasglu'ch gwastraff gardd unwaith yn unig ym mis Tachwedd, Rhagfyr ac Ionawr. Yn wahanol i wastraff cartref nid yw'n ddyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i gasglu gwastraff gardd; fodd bynnag mae arnom eisiau gallu darparu'r gwasanaeth ac felly yn cynnig codi tâl ar bawb (sy'n defnyddio'r gwasanaeth). Byddai'n costio £30 y flwyddyn i wagio biniau gwastraff gardd a £30 am finiau gwyrdd ychwanegol. Mae ardaloedd eraill eisoes yn codi tâl am y biniau gwyrdd, fel Sir y Fflint (sy'n codi £30) a Sir Gaerfyrddin (sy'n codi £42), ac ddim yn casglu yn ystod misoedd y gaeaf.



Dywedoch Chi:

- Mae yna risg o fwy o dipio anghyfreithlon petai'r cynigion hyn yn cael eu gweithredu
- Bydd lleihau casgliadau gwastraff cartref yn achosi mwy o broblemau e.e. fermin, aroglau a llanast
- Mae pobl yn ei chael hi'n anodd efo'r casgliadau bob pythefnos - yn arbennig pobl â phlant ac anifeiliaid anwes
- Mae lleihau nifer y casgliadau gwastraff gwyrdd yn y gaeaf yn rhesymol, ac efallai byddai modd ei leihau ymhellach
- Ni ddylid codi tâl am wasanaethau gwastraff pan fo pobl yn talu cymaint o dreth y cyngor
- Mae angen gwella'r gwasanaethau a ddarperir gan griwiau casglu sbwriel, gan gynnwys perfformiad, recriwtio a chadw staff
- Anghytuno â'r ddau ddewis
- Dylid addysgu ac annog pobl i ailddefnyddio ac ailgylchu mwy. Dylid gwneud mwy i sicrhau bod pobl yn cadw at y rheolau ailgylchu
- Beirniadu CBSW
- Cadw'r casgliadau bob pythefnos

Gwnaethom Ni:

Mae'r Cyngor wedi bod yn adolygu ei wasanaethau gwastraff ac ailgylchu ac yn cynnig nifer o ddewisiadau fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus eleni. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn adborth defnyddiol wrth i ni ddatblygu ein strategaeth a'n cynllun gweithredu ar gyfer gwastraff ac ailgylchu.

Rydym ni wedi penderfynu peidio â chodi tâl am y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i ddatblygu opsiynau ac yn archwilio'r gwasanaeth i ganfod dulliau mwy effeithlon o ddarparu'r gwasanaeth a phrosesu gwastraff.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno targedau statudol ar gyfer ailgylchi a, tra bod Wrecsam wedi cael canlyniadau ardderchog hyd yma, mae'n bwysig ein bod ni'n parhau i archwilio dewisiadau i wella'r gwaith rydym ni'n ei wneud yn y maes hwn.

Gwasanaethau Llyfrgell

Rydym ni'n cynnig gwneud rhai newidiadau i'r gwasanaethau llyfrgell.

Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau llyfrgell 'digonol'; fodd bynnag penderfyniad yr awdurdodau unigol yw sut maent yn darparu'r gwasanaethau hynny yn eu hardaloedd. Yn Wrecsam, rydym ni ar hyn o bryd yn gwario oddeutu £1.3 miliwn ar lyfrgelloedd pob blwyddyn ac felly, yn amlwg, yn y sefyllfa anodd sydd ohoni, dyma faes y bydd yn rhaid i ni ei adolygu i sicrhau ei fod yn effeithlon ac yn gallu diwallu anghenion newidiol preswylwyr.

Ein cynnig yw cynnal adolygiad llawn o wasanaethau llyfrgell Wrecsam yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn deall eich anghenion a'r ffordd orau o weddnewid y gwasanaeth i ddiwallu'r anghenion hynny. Drwy wneud hyn rydym ni'n gobeithio gallu darparu gwasanaeth mwy modern, yn ogystal â lleihau'r gwraint yn y maes hwn a helpu i lenwi'r bwlch yn ein cyllideb yn ystod y blynyddoedd i ddod. Fel rhan o'r adolygiad hwn ein gobaith yw ymgysylltu â chymunedau lle ceir dewisiadau i newid y gwasanaeth.

Nid oes modd i ni barhau i wario fel yr ydym yn y maes hwn ac felly, hyd yn oed os nad ydym yn cynnal adolygiad llawn o'r gwasanaethau llyfrgell, bydd yn rhaid i ni wneud newidiadau beth bynnag. Rydym ni wedi nodi rhai dewisiadau posibl er mwyn arbed arian yn 2019/20 (gan gynnwys newid y ffordd rydym ni'n darparu gwasanaethau llyfrgell mewn ardaloedd penodol o'r sir), fodd bynnag mae'n annhebygol y bydd y newidiadau hyn yn cyfrannu at effeithiolrwydd y gwasanaeth, nac yn helpu i ddarparu gwasanaeth modern sy'n diwallu anghenion lleol; ac efallai y bydd yn rhaid gwneud gostyngiadau pellach yn y maes hwn yn y dyfodol.



Dywedoch Chi:

- Mae llyfrgelloedd yn asedau cymunedol a dylid eu cadw – maent yn fannau cyfarfod lleol ac yn helpu i atal unigedd, ac yn cael eu defnyddio gan ysgolion
- Ystyried cynhyrchu incwm e.e. codi tâl am ymaelodi, rhentu gofodau, defnyddio cyfrifiaduron, agor caffis, chwilio am nawdd
- Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn hanfodol i deuluoedd, pobl hŷn a phobl ar incymau isel (e.e. y rheiny sy'n methu fforddio cyfrifiaduron / WiFi / llyfrau a phobl sy'n chwilio am waith)
- Does dim angen llyfrgelloedd – digidoleiddio gwasanaethau a hyfforddi pobl i'w defnyddio / darparu dyfeisiau electronig i'r rheiny â'r angen mwyaf
- Peidiwch â chau mwy o lyfrgelloedd na lleihau'r gwasanaeth
- Trosglwyddo llyfrgelloedd i sefydliadau preifat / trydydd sector / cynghorau cymuned a chwilio am fwy o wirfoddolwyr i helpu i'w rhedeg
- Lleoli llyfrgelloedd mewn adeiladau cyngor, adeiladau cymunedol, ysgolion neu Tŷ Pawb
- Cadw un llyfrgell yng nghanol y dref (cau'r lleill)
- Mae angen adolygiad i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau / diwallu anghenion cwsmeriaid / moderneiddio'r gwasanaeth – sicrhau bod staff yn cael eu cynnwys
- Defnyddio adeiladau llyfrgell ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus eraill hefyd (gwneud gwell defnydd o ddarparu gwasanaethau mewn cymunedau.

Gwnaethom Ni:

Cydnabyddir bod llyfrgelloedd yn rhan bwysig o'r gymuned a bod yn rhaid iddynt fod yn hygyrch i bawb; ac felly bydd adolygiad o'r llyfrgelloedd yn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth modern a hygyrch yn y dyfodol, gan sicrhau bod y cyllid cyhoeddus a fuddsoddir yn y gwasanaeth yn cael ei wario'n effeithlon ac effeithiol. Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal yn ystod 2019/20 a bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda defnyddwyr gwasanaeth cyn i'r argymhellion terfynol gael eu hystyried a'u mabwysiadu.

Cludiant i Ysgolion Ffydd

Rydym ni'n cynnig newid y ffordd rydym ni'n darparu cludiant i ysgolion ffydd.

Mae gennym sawl 'ysgol ffydd' yn Wrecsam (h.y. yr ysgolion hynny sydd wedi eu bwriadu ar gyfer disgyblion o ffydd grefyddol benodol). Gall rhieni ddewis gwneud cais i'w plant fynd i'r ysgolion hyn.

Mae trefniadau ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol yn Wrecsam yn cynnwys cynnig cludiant i unrhyw blentyn sy'n byw fwy na 3 milltir (ar gyfer ysgolion uwchradd), neu fwy na 2 filltir (ar gyfer ysgolion cynradd) i ffwrdd o'r ysgol y maent yn ei mynychu, cyhyd ac mai hon yw'r ysgol addas agosaf at y man lle maent yn byw. Nid ydym yn cynnig cludiant am ddim i'r ysgol i'r disgyblion hynny lle mae'r rhieni yn ffafrio peidio â'u hanfon i'r 'ysgol addas agosaf.' Os bydd rhiant yn penderfynu eu bod yn dymuno i'w plentyn fynychu ysgol ffydd, ar hyn o bryd darperir cludiant i'r ysgol am ddim i ddisgyblion sy'n byw ymhellach na 2 neu 3 milltir i ffwrdd – heb ystyried a oes ysgol nad yw'n un ffydd yn nes at eu cartref.

Mae darparu cludiant i ysgolion ffydd yn 'ddewisol' (sy'n golygu nad oes rhaid i ni ei ddarparu yn ôl y gyfraith). Rydym yn amcangyfrif mai cost cynnig y cludiant hwn yw oddeutu £302,000 y flwyddyn ar hyn o bryd, ac felly mae arnom eisiau adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer y ddarpariaeth hon, ac ystyried dod a diwedd ar gludiant am ddim.



Dywedoch Chi:

- Dylai rhieni dalu'r holl gostau, neu rywfaint o'r gost
- Gwahaniaethu rhwng ysgolion ffydd / torri deddfwriaeth ar gydraddoldeb a hawliau dynol
- Pryder ynghylch fforddiadwyedd / dylid cynnal prawf modd
- Dylid adolygu'r polisi cludiant presennol i sicrhau tegwch i bawb
- Mae'r system ar hyn o bryd yn rhagfarnllyd o blaid ysgolion ffydd
- Annheg ac yn niweidiol i deuluoedd sy'n dilyn ffydd
- Ni ddylai'r Cyngor / trethdalwr fod yn talu am hyn
- Byddai peidio â chynnig cludiant am ddim yn cael gwared ar ddewis
- Dylai rhieni ddewis yr ysgol agosaf
- Dylai bod ysgolion Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y cynnig
- Dylai'r eglwys dalu

Gwnaethom Ni:

Yn dilyn ymgynghori ac ystyried yr ymatebion yn ofalus, mae'r Cyngor wedi penderfynu peidio ag adolygu cludiant i ysgolion ffydd. Bu i ni dderbyn sylwadau gan ysgolion, yr eglwys a theuluoedd a fyddai'n cael eu heffeithio, ac rydym ni'n derbyn nad hwn yw'r dewis cywir ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn y dyfodol, efallai y byddem yn ystyried adolygu'r polisi presennol ar cludiant i'r ysgol i sicrhau ei fod yn dal i ddarparu'r trefniadau mwyaf priodol.

Treth y Cyngor

Rydym ni'n cynnig cynyddu Treth y Cyngor.

Treth a godir yn lleol yw Treth y Cyngor sy'n daladwy ar bob eiddo domestig. Mae'n cynnwys tair elfen wahanol - tâl Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, tâl Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a thâl y Cyngor Cymuned. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn casglu'r holl daliadau hyn ac yn cadw'r swm sy'n ddyledus i'r Cyngor ac yn talu'r symiau a gasglwyd ar ran Awdurdod yr Heddlu a'r Cynghorau Cymuned unigol. Mae'r swm sy'n ddyledus yn dibynnu ar ba 'Fand' y mae eiddo wedi ei osod ynddo. Mae ystod o fandiau, o 'A' hyd 'I'. Band 'A' sydd â'r tâl isaf a Band 'I' sydd â'r tâl uchaf. Cynigir gostyngiadau hefyd pan fo person yn byw ar ei ben ei hun neu os yw eiddo'n wag.

Pob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn asesu faint sydd ar bob Awdurdod Lleol angen ei wario i ddarparu ei wasanaethau (sef yr Asesiad o Wariant Safonol). Mae wedyn yn darparu cyfran o'r cyllid hwn, sy'n golygu bod yn rhaid derbyn gweddill y cyllid drwy gynhyrchu incwm a Threth y Cyngor. Er mwyn cwrdd â'r gyllideb sydd arnom ni ei hangen yn ôl Llywodraeth Cymru, byddai'n rhaid i ni godi Treth y Cyngor 13%. Nid ydym yn cynnig gwneud hyn ac felly rydym ni'n llenwi'r bwlch ariannol hwn drwy gadw'r gyllideb dan reolaeth tynn a bod mor effeithlon a phosibl.

Un dewis rydym ni'n ei ystyried yw cynnydd o 6%, a fydd yn oddeutu £5.45 yn fwy pob mis i deulu eiddo Band D. Rydym ni'n sylweddoli bod cyllidebau llawer o bobl yn dynn, ac mae arnom ni eisiau gwneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu gwasanaethau pwysig fel ysgolion a gofal cymdeithasol, a bydd y cynnydd hwn yn Nhreth y Cyngor yn ein helpu ni i wneud hyn.



Dywedoch Chi:

- Mae gwasanaethau Cyngor yn lleihau/is-safonol/anaddas i'r diben/ ddim yn werth am arian, ac felly mae cynyddu Treth y Cyngor yn annheg
- Mae Treth y Cyngor yn ddigon drud fel y mae, ac mae'r cynnydd arfaethedig yn amhosibl ei fforddio
- Beirniadu'r cwestiwn ar Dreth y Cyngor – gan gynnwys categorïau ateb unllygeidiog, angen mwy o wybodaeth, a phobl yn meddwl bod y cynnydd yn berthnasol i eiddo Band D ac uwch yn unig
- Dylai cynnydd yn Nhreth y Cyngor fod yn unol á mesurau/lefelau eraill e.e. chwyddiant, cost byw, cyflogau/pensiwn
- Gwneud pethau'n wahanol i arbed mwy o arian – awgrymiadau yn cynnwys gwella effeithlonrwydd, gwasanaethau a rennir/integredig gyda phartneriaid, buddsoddi i arbed, cwtogi gwasanaethau
- Cefnogi'r cynnydd arfaethedig ar yr amod ei fod yn cael ei wario ar y gwasanaethau a amlinellir (gofal cymdeithasol, addysg, tân)
- Dylid rhewi neu leihau Treth y Cyngor
- Blaenoriaethu gwasanaethau hanfodol a rhoi'r gorau i wastraffu arian ar brosiectau diangen e.e. Tŷ Pawb, palmant canol y dref, arwyddion meysydd parcio
- Lleihau costau Cynghorwyr – gan gynnwys niferoedd, cyflogau, treuliau a mân fanteision
- Cefnogi cynnydd yn Nhreth y Cyngor – rhai'n nodi hyd at 5%/6% ac eraill yn nodi hyd at 10%

Gwnaethom Ni:

O ganlyniad i'ch ymatebion a setliad anodd Llywodraeth Cymru, nid oes gan y Cyngor unrhyw ddewis ond cynyddu Treth y Cyngor. Rydym ni hefyd yn nodi bod nifer o awdurdodau eraill yng Nghymru yn bwriadu cynnydd sylweddol yn 2019-20, ond mae Cyngor Wrecsam yn cadw'r cynnydd yn 5.5%. Mae cynnydd o 7.74% yn y cyfraniad i Heddlu Gogledd Cymru. Rydym ni hefyd wedi darparu 5.4% ychwanegol i gyllido Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, ac rydym ni'n darparu cynnydd o 3% yng nghyllideb ysgolion.

Rydym ni wedi ceisio diogelu pobl ddiamddiffyn ac wedi cynyddu cyllideb Gofal Cymdeithasol ychydig, gan beidio â chyflwyno unrhyw arbedion pellach ar wahân i'r rheiny sydd wedi eu cytuno arnynt yn ystod yr ymgynghoriad cyllideb yn 2017. Rydym ni hefyd yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi darparu nifer o grantiau penodol ar gyfer gofal cymdeithasol, sydd y tu allan i gyllideb refeniw'r Cyngor.

Bydd Treth y Cyngor Band D yn Wrecsam yr 7fed isaf yng Nghymru a Lloegr.